



# **Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru Beth rydyn ni'n mynd i'w wneud yn 2021 i 2022**

**Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl**

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o Gynllun Gwelliant Blynyddol Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru 2019-2020.

**Tachwedd 2020**



# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall. Mae'r geiriau a beth maen nhw'n feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall.



Efallai y byddwch angen help a chefnogaeth i ddarllen a deall y ddogfen yma. Gofynnwch i rhywun rydych yn ei adnabod i'ch helpu chi.



Efallai bod rhai geiriau yn anodd i'w deall. Mae'r rhain mewn **ysgrifen glas trwm**. Mae beth maen nhw'n feddwl yn cael ei esbonio yn y blwch o dan y gair.



Os ydy'r gair anodd yn cael ei ddefnyddio eto mae mewn **ysgrifen glas normal**. Gallwch weld beth maen nhw'n feddwl ar **dudalen 20**.



Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru**. Am ragor o wyubodaeth cysylltwch gyda:

**Gwefan:** [www.decymru-tan.gov.uk](http://www.decymru-tan.gov.uk)

**E-bost:** [HYS@southwales-fire.gov.uk](mailto:HYS@southwales-fire.gov.uk)

**Ffôn:** 01443 232000



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**.

# Cyflwyniad

## Tudalen

|                                            |           |
|--------------------------------------------|-----------|
| <b>Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma.....</b> | <b>2</b>  |
| <b>Cyflwyniad.....</b>                     | <b>4</b>  |
| <b>Ein gwaith.....</b>                     | <b>6</b>  |
| Eich cadw chi'n ddiogel.....               | 6         |
| Ymateb i'ch argyfwng.....                  | 8         |
| Defnyddio technoleg yn dda.....            | 9         |
| Gweithio gyda'n partneriaid.....           | 9         |
| Gwell cyfathrebiadau.....                  | 11        |
| Gwerthfawrogi ein pobl.....                | 12        |
| Amddiffyn ein hamgylchedd.....             | 14        |
| Parhau i weithio yn effeithiol.....        | 16        |
| <b>Gwirfoddolwyr.....</b>                  | <b>18</b> |
| <b>Geiriau anodd.....</b>                  | <b>20</b> |

# Cyflwyniad



Ni ydy **Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru**.



Rydyn ni wedi bod yn meddwl am ffyrdd i wella ein gwasanaeth yn **2021 i 2022**.



Rydyn ni wedi meddwl am rai **nodau** ar gyfer y flwyddyn nesaf.



Yn y ddogfen yma fe fyddwn ni'n siarad am ein **nodau** ar gyfer y flwyddyn **2021 i 2022**.



Rydyn ni eisiau dweud wrthyach chi am beth fyddwn ni'n ei wneud i wneud iddyn nhw ddigwydd.



Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych **chi'n** feddwl am ein Nodau.



Rydych chi'n gallu dweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl drwy ateb ein cwestiynau yn yr arolwg

**neu**



rydych chi'n gallu ateb ein arolwg ar-lein. [Rydych chi'n gallu ateb yr arolwg yma.](#)

# Ein gwaith

## Eich cadw chi'n ddiogel



Rydyn ni eisiau i lai o danau ac argyfyngau ddigwydd yn Ne Cymru.



Dydy rhai pobl ddim yn siŵr sut maen nhw'n gallu stopio tanau ac argyfyngau rhag digwydd.



Rydyn ni'n meddwl y bydd yn helpu os ydyn ni'n siarad gyda phobl am sut maen nhw'n gallu eu stopio rhag digwydd.



## Ein nodau:



- Ateb llai o alwadau sydd yn troi allan i fod yn **alwadau ffug**.

**Galwadau ffug** ydy pan rydyn ni'n gadael i ateb argyfwng ond pan rydyn ni'n cyrraedd does dim argyfwng.



- Gwneud yn siŵr bod llai o danau ac argyfyngau mewn cartrefi a busnesau.



- Gwneud yn siŵr bod llai o ddamweiniau traffig.



- Cael gwell diogelwch yn ac o amgylch dŵr.



- Cael gwell diogelwch tân mewn adeiladau ac yn ein cymunedau.

# Ymateb i'ch argyfwng



Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr ein bod ni yn gallu eich helpu yn gyflym pan rydych chi ein hangen ni. I wneud hyn, mae angen inni:

## Ein nodau:



- Gwneud yn siŵr bod gennym ni ddigon o Ymladdwyr Tân i'ch helpu chi.



- Gwneud yn siŵr bod ein Hymmladdwyr Tân yn gwybod beth i'w wneud i'ch helpu chi.



- Gwneud yn siŵr bod gan Ymladdwyr Tân yr offer cywir i'ch helpu chi.





## Defnyddio technoleg yn dda

Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod genym ni yr offer gorau i'n helpu ni i wneud ein gwaith yn dda.

### Ein nodau:



- Rydyn ni eisiau cael yr offer gorau i helpu mewn argyfwng.



- Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod gan ein staff yr offer gorau i gefnogi ein Hymmladdwyr Tân.

## Gweithio gyda'n partneriaid



Rydyn ni eisiau parhau i weithio gyda chyrff eraill i gadw pobl yn ddiogel. Er enghraifft, Gwasanaethau Iechyd Lleol, Ysgolion a Cholegau, Gwasanaethau Cymdeithasol etc.



Mae gweithio gyda chyrrff eraill yn ein helpu ni i ddeall beth sydd yn bwysig ym mhob cymuned leol.

### Ein nodau:



- Gweithio gyda ein **Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus** i gefnogi ein cymunedau.

**Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus** ydy gwasanaethau fel cynghorau lleol, y GIG, yr heddlu, tân ac achub ac elusennau sydd yn ffurfio grŵp i weithio gyda'i gilydd ac yn gwneud gwasanaethau cyhoeddus yn well mewn ardal yn Ne Cymru.



- Gweithio gyda chyrrff eraill i ddarparu gwasanaethau pan mae angen.



- Edrych ar sut rydyn ni'n gallu gweithio'n dda gyda'n partneriaid.

# Gwell cyfathrebiadau



**Cyfathrebu** ydy'r ffordd rydyn ni'n rhoi gwybodaeth i bobl. Mae'n meddwl siarad ac ysgrifennu.



Mae **cyfathrebu'n** dda gyda ein staff, cymunedau a chyrff eraill yn bwysig.



Mae'n helpu i gadw pobl yn ddiogel.

## Ein nodau:



- Dweud wrth bobl am y gwaith rydyn ni'n ei wneud.



- Rhoi cyfle i bobl gael dweud beth maen nhw'n feddwl.



- Cadw ein cymunedau'n ddiogel drwy siarad gyda phobl mewn cyfarfodydd a digwyddiadau cymunedol am ddiogelwch tân.

## Gwerthfawrogi ein pobl



Rydyn ni eisiau canolbwyntio ar gael gweithlu sydd yn **amrywiol**.



Mae **amrywiol** yn meddwl nad ydyn ni gyd yr un fath. Er enghraifft mae pobl yng Nghymru:

- yn dod o wahanol gefndiroedd a diwylliannau
- gyda gwahanol alluoedd
- yn credu gwahanol bethau
- gyda hunaniaethau rhywiol gwahanol
- yn gwneud dewisiadau gwahanol am sut maen nhw'n byw eu bywydau
- yn wahanol oedran.



## Ein nodau:



- Rydyn ni eisiau staff o gymunedau a chefnidiroedd **amrywiol** i weithio inni.



- Rydyn ni eisiau helpu'r bobl sydd yn gweithio inni deimlo'n hapus ac yn dda yn y gwaith.



- Rydyn ni eisiau helpu'r bobl sydd yn gweithio inni gael unrhyw hyfforddiant maen nhw ei angen ar gyfer eu gwaith.

# Amddiffyn ein hamgylchedd



Rydyn ni eisiau edrych ar ôl ein **hamgylchedd** drwy **ailgylchu** ac **ailddefnyddio** pethau pan rydyn ni'n gallu.



Yr **amgylchedd** ydy lle rydyn ni'n byw. Mae'n meddwl y môr, yr aer a phopeth sydd yn byw ynddo ac arno. Er enghraifft: planhigion, anifeiliaid a physgod.

**Ailgylchu** ein sbwriel. Mae hyn yn meddwl cymryd ein sbwriel a'i droi yn rhywbeth arall rydyn ni'n gallu ei ddefnyddio.

**Ailddefnyddio** pethau eto. Er enghraifft poteli llaeth gwydr sydd yn gallu cael eu hail-lenwi pan rydych chi wedi gorffen.





## Ein nodau:




- **Lleihau'r** defnydd o bethau sydd ddim ond yn gallu cael eu defnyddio unwaith.



- Defnyddio **cerbydau** trydan os ydyn ni'n gallu.

Mae **cerbydau** yn gallu bod yn geir, faniau ac injan dân etc.



- Defnyddio llai o nwy a thrydan.



- Meddwl am sut mae beth rydyn ni'n ei wneud yn gallu effeithio ar yr **amgylchedd**.

# Parhau i weithio yn effeithiol



Mae **effeithiol** yn meddwl gwneud pethau yn y ffordd gywir a gorau.



Rydyn ni eisiau gwneud ein gorau i gadw pobl yn ddiogel.



Rydyn ni eisiau ceisio cadw ein costau yn isel wrth ddarparu ein gwasanaethau.

## Ein nodau:



- Bod yn agored ac yn onest gyda phobl am beth rydyn ni'n ei wneud.



- Gwneud yn siŵr ein bod yn gwneud y gwaith gorau posibl i gadw pobl yn ddiogel.



- Dim ond gwario beth sydd angen inni ei wario.

# Gwirfoddolwyr



Mae unrhyw un yn gallu **gwirfoddoli** gyda Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru.



**Gwirfoddolwr** ydy rhywun sydd yn helpu heb gael eu talu. Mae rhai **gwirfoddolwyr** yn gallu cael arian am deithio a bwyd tra maen nhw'n helpu.

I **wirfoddoli** gyda ni, mae angen i chi:



- gallu **gwirfoddoli** am 8 awr y mis o leiaf



- gallu **gwirfoddoli** gyda ni am 6 mis neu fwy



- **gwirfoddoli** ar ddyddiau'r wythnos



- [gwirfoddoli](#) ar y penwythnosau weithiau



- [gwirfoddoli](#) gyda'r nos weithiau.



Os ydych chi eisiau dysgu rhagor, [ewch i'n gwefan](#).



Neu rydych chi'n gallu ffonio 01443 232000 i siarad gyda ni.

# Geiriau anodd

## Ailddefnyddio

Ailddefnyddio pethau eto. Er enghraifft poteli llaeth gwydr sydd yn gallu cael eu hail-lenwi pan rydych chi wedi gorffen.

## Ailgylchu

Ailgylchu ein sbwriel. Mae hyn yn meddwl cymryd ein sbwriel a'i droi yn rhywbeth arall rydyn ni'n gallu ei ddefnyddio.

## Amgylchedd

Yr amgylchedd ydy lle rydyn ni'n byw. Mae'n meddwl y tir, y môr, yr aer a phopeth sydd yn byw arno ac ynddo. Er enghraifft: planhigion, anifeiliaid a physgod.

## Amrywiol

Mae amrywiol yn meddwl nad ydyn ni gyd yr un fath. Er enghraifft mae pobl yng Nghymru:

- yn dod o wahanol gefndiroedd a diwylliannau
- gyda gwahanol alluoedd
- yn credu gwahanol bethau
- gyda hunaniaethau rhywiol gwahanol
- yn gwneud dewisiadau gwahanol am sut maen nhw'n byw eu bywydau
- yn wahanol oedran.



## **Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus**

Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ydy gwasanaethau er enghraifft: cynghorau lleol, GIG, yr heddlu, tân ac achub ac elusennau sydd yn ffurfio grŵp i weithio gyda'i gilydd a gwneud gwasanaethau cyhoeddus yn well mewn ardal yn Ne Cymru.

## **Cerbydau**

Ceir, faniau ac injan dân etc.

## **Cyfathrebu**

Cyfathrebu ydy'r ffordd rydyn ni'n rhoi gwybodaeth i bobl. Mae'n meddwl siarad ac ysgrifennu.

## **Effeithiol**

Mae effeithiol yn meddwl gwneud pethau yn y ffordd gywir a gorau.

## **Galwadau Ffug**

Galwadau ffug ydy pan rydyn ni'n gadael i ateb argyfwng ond pan rydyn ni'n cyrraedd does dim argyfwng.

## **Gwirfoddolwr**

Gwirfoddolwr ydy rhywun sydd yn helpu heb gael eu talu. Mae rhai gwirfoddolwyr yn gallu cael arian am deithio a bwyd tra maen nhw'n helpu.